Annwyl rieni, warcheidwaid a llywodraethwyr,

Ysgrifennwn atoch i'ch gwahodd yn gynnes i gyflwyniadau a gynhelir gan Flwyddyn 7 yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Dyma achlysur a fwriedir i arddangos cynnydd a dealltwriaeth y disgyblion yn dilyn paratoadau cynhwysfawr at brosiect Uned 1 y Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu sef 'Arwyr Fy Ieithoedd'. Y mae'r gwaith hwn yn ymwneud â chynnydd a chyflawniad y disgyblion yn eu gwersi Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol (Ffrangeg a Mandarin), lle rhoddwyd ffocws i'r cwestiwn allweddol canlynol: 'pwy yw'r arwyr sy'n ysbrydoli fy hunaniaeth i?'

Cynhelir y digwyddiad ar y 6ed, y 7fed a'r 8fed o fis Chwefror yn ystafell yr Oriel ar lawr uchaf yr amgueddfa. Fe fydd y disgyblion yn cyflwyno o flaen cynulleidfa fyw fesul dosbarth cofrestru. Dyma drefn y dosbarthiadau:

Dydd Llun, Chwefror y 6ed – 7B a 7W
Dydd Mawrth, Chwefror y 7fed – 7A a 7E
Dydd Mercher, Chwefror yr 8fed – 7R a 7T

Fe fydd croeso ichi fynychu'r cyflwyniadau i gefnogi'r disgyblion wrth iddynt rannu eu dealltwriaeth o'r uned gyda'r gynulleidfa mewn cyd-destun byw. Rhoddir ffocws penodol yng nghyfraniadau'r disgyblion i ateb y cwestiwn allweddol, gan dynnu ar y wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u dysgu yn eu holl wersi iaith dros y tymor diwethaf. Fe'ch gwahoddir i fynychu rhwng 10 ac 11 y bore sef y cyfnod a neilltuir ar gyfer y cyflwyniadau ar gyfer y tridiau.

Ar yr un diwrnodau, fe fydd MDaPh y Dyniaethau yn cynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'n huned 'Cynefin' sef yr hyn yr ydym yn ei astudio ar hyn o bryd. Fe fydd y disgyblion yn ymweld ag Eglwys y Santes Fair yng nghanol y ddinas er mwyn trafod nodweddion yr eglwys a'r rôl y mae'r eglwys yn ei chwarae yn y gymuned leol. Fe fydd hefyd cyfle i'r disgyblion deithio ar long y *Copper Jack* sydd yn hwylio o'r Marina ar hyd afon Tawe, gyda'r bwriad o ddysgu am hanes diwydiannol Abertawe.

Gofynnir am gyfraniad o £8.50 yr un ar gyfer costau'r bws i'r amgueddfa – fe fydd angen dychwelyd yr arian i'r swyddfa erbyn Chwefror y 3ydd fan bellaf.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

Yr eiddoch yn gywir,

Elidir Dafydd
(Arweinydd y MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu)

Hana Jones
(Arweinydd MDaPh y Dyniaethau)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Dear parents, carers and school governors,

We write to inform you of live presentations to be conducted by Year 7 pupils in the National Waterfront Museum. This is to showcase their progress and understanding of their Unit 1 studies within the Languages, Literacy and Communication Area of Learning and Experience (AoLE). It is an opportunity for all of the pupils to celebrate their achievements within the AoLE throughout this last academic term, and incorporates subunits taught in Welsh and English lessons, as well as in International Languages (French a Mandarin). The project is focused upon the role of heroes within their study of languages.

The event is to be held on the 6th, 7th and 8th of February in the Gallery area of the museum. The pupils will be presenting along with the rest of their registration class on the following mornings:

Monday, February 6th – 7B and 7W
Tuesday, February 7th – 7A and 7E
Wednesday, February 8th – 7R and 7T

Your attendance in the event would be most welcome as a way of lending support to the pupils as they share their findings and overall understanding of the studied unit in a real-life setting. There will be a dedicated focus upon answering the following key question: 'which heroes inspire a sense of identity?', whereby pupils will draw upon the knowledge and skills which they developed over the course of last term. You are invited to attend the event which is relevant to your child between 10 and 11am on either February 6th, 7th or 8th.

On the same days, the Humanities AoLE have organised various activities associated with the unit on 'Cynefin' (habitat) that we are currently studying. Learners will visit St Mary's Church in the city centre in order to learn more about the internal features of the Church and its role in the wider community. Leaners will partake in a cruise along the river Tawe on the *Copper Jack* boat, setting off from Swansea Marina, with a view to expand and enrich their understanding further of Swansea's industrial history.

We kindly ask for a contribution of o £8.50 per pupil to cover the cost of the bus to the museum and back – the money will need to be returned to the school reception no later than February 3rd.

We would like to take this opportunity to thank you for your support.

Yours faithfully,

Elidir Dafydd
(Leader of AoLE Languages, Literacy and Communication)

Hana Jones
(Leader of the Humanities AoLE)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies